

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
28/03/2007

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Questions to the Minister for Local Government and Public Services
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Questions to the Minister for Local Government and Public Services

Cyflog Cyfartal
Equal Pay

Q2 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement about the importance of equal pay for local government employees?
OAQ1198(LGP)

C2 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd cyflog cyfartal i bobl sy'n gweithio mewn llywodraeth leol?
OAQ1198(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): Equal pay is important to the Assembly Government, which has been in the vanguard of promoting equal pay through initiatives such as the Close the Gap campaign. There is an additional £54 million per year in the local government settlement to enable local government to deliver on its obligations.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Mae cyflog cyfartal yn bwysig i Lywodraeth y Cynulliad, sydd wedi bod ar flaen y gad wrth hyrwyddo cyflog cyfartal drwy gyfrwng mentrau megis yr ymgyrch, Cau'r Bwlch. Mae swm ychwanegol o £54 miliwn yn flwyddyn yn y setliad llywodraeth leol i alluogi llywodraeth leol i gyflawni ei rhwymedigaethau.

Atebwyd cwestiynau 3 i 12 yn y Cyfarfod Llawn.
Questions 3 to 12 were answered in Plenary.

Cyflog Cyfartal
Equal pay

Q13 David Lloyd: Will the Minister make a progress report on the implementation of equal pay in local government.
OAQ1195(LGP)

C13 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd am weithredu cyflog cyfartal mewn llywodraeth leol?
OAQ1195(LGP)

Sue Essex: How each authority is

Sue Essex: Mater i awdurdodau unigol yw'r

progressing the equal pay agenda in light of its obligation under the Equal Pay Act 1970 is a matter for that authority. The Assembly Government is providing £54 million a year from April 2007 to help authorities to meet their obligations. Two authorities have reached agreement on backpay.

ffordd y mae'r awdurdodau hynny'n gwneud cynnydd o safbwynt cyflog cyfartal yn sgil y rhwymedigaeth o dan Ddeddf Cyflog Cyfartal 1970. O fis Ebrill 2007 ymlaen bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi £54 miliwn y flwyddyn i helpu awdurdodau i gyflawni eu rhwymedigaethau. Mae dau awdurdod wedi dod i gytundeb ar ôl-gyflog.

Gwella'r Cyllid Improve Funding

Q14 Irene James: What action has the Minister taken to improve local government funding in Wales? OAQ1173(LGP)

C14 Irene James: Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i wella cyllid llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ1173(LGP)

Sue Essex: Local government funding has increased by over 55 per cent since 1999-2000. The annual council tax rises in Wales over the period 2005-06 to 2007-08 are the lowest since council tax was introduced in 1993-94.

Sue Essex: Mae cyllid llywodraeth leol wedi cynyddu dros 55 y cant ers 1999-2000. Mae'r cynnydd blynyddol yn y dreth gyngor yng Nghymru yn ystod y cyfnodau 2005-06 a 2007-08 ymhlith y lleiaf ers cyflwyno'r dreth gyngor ym 1993-94.

Cynllun Gostyngiad Ardrethi Busnes Business Rate Relief Scheme

Q15 Ann Jones: How many post offices in Denbighshire will benefit from the changes to the business rate relief scheme? OAQ1181(LGP)

C15 Ann Jones: Sawl swyddfa bost yn sir Ddinbych fydd yn cael budd o'r newidiadau i'r cynllun gostyngiad ardrethi busnes? OAQ1181(LGP)

Sue Essex: All post offices with a rateable value of £12,000 or less in Wales will receive 100 per cent or 50 per cent rate relief. Denbighshire County Council estimates that, in Denbighshire, three post offices will qualify for 50 per cent relief, and 22 will get the full 100 per cent relief from 1 April 2007.

Sue Essex: Bydd pob swyddfa bost yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol o £12,000 neu lai yn cael 100 y cant neu 50 y cant o ryddhad ardrethi. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn amcangyfrif y bydd tair swyddfa bost yn sir Ddinbych yn gymwys i gael rhyddhad 50 y cant, a 22 yn cael y rhyddhad llawn, sef 100 y cant, o 1 Ebrill 2007 ymlaen.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

Cludiant Ysgol School Transport

Q13 Janet Davies: Will the Minister make a statement on the availability of school transport in south-west Wales? OAQ1304(ELL)

C13 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd cludiant ysgol yn y de-orllewin? OAQ1304(ELL)

The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol

Learning and Skills (Jane Davidson): The Education Act 1996, as amended, places responsibility on local education authorities to provide free home-to-school transport for children of compulsory school age who live beyond statutory walking distances. Authorities may decide what post-16 transport arrangements to offer, but there is no legislative entitlement to free transport for these learners.

Oes a Sgiliau (Jane Davidson): Mae Deddf Addysg 1996, fel y'i diwygiwyd, yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau addysg lleol i ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i blant sydd o oedran ysgol gorfodol ac sy'n byw ymhellach na'r pellterau cerdded statudol. Caiff yr awdurdodau benderfynu pa drefniadau ôl-16 i'w cynnig, ond nid oes gan y dysgwyr hynny hawl deddfwriaethol i gael cludiant am ddim.

Anghenion Addysgol Arbennig Special Educational Needs

Q14 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the provision of special educational through the medium of Welsh? OAQ1312(ELL)

C14 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg? OAQ1312(ELL)

Jane Davidson: An action plan to take forward recommendations in the Welsh Language Board's 'Acknowledging Need' report was completed last year and it is available on the Learning Wales website. I have just appointed a secondee to further support implementation of our proposals insofar as they relate to Welsh-medium special educational need issues.

Jane Davidson: Cwblhawyd cynllun gweithredu i roi ar waith argymhellion Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei adroddiad 'Cydnabod Angen' y llynedd, a gellir gweld y cynllun hwnnw ar wefan Dysgu Cymru. Yr wyf newydd benodi seondai i gynorthwyo'r gwaith o roi ein cynigion ar waith ymhellach os ydynt yn berthnasol i faterion sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig cyfrwng Gymraeg.

Anweithgarwch Economaidd Economic Inactivity

C15 Alun Ffred Jones: Pa fesurau newydd sydd gan y Gweinidog i ddatrys anweithgarwch economaidd yng Ngwynedd? OAQ1299(ELL) [W]

Q15 Alun Ffred Jones: What new measures has the Minister taken to resolve economic inactivity in Gwynedd? OAQ1299(ELL) [W]

Jane Davidson: Bydd y rhaglen Llwybrau at Waith, a luniwyd i helpu pobl sy'n hawlio budd-dal analluogrwydd i gael gwaith, yn cael ei chyflwyno ledled y gogledd o fis Hydref 2007. Yn ogystal, bydd rhaglenni cydgyfeirio cronfa strwythurol Ewrop 2007-13, dan flaenoriaeth 2, sef cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch, yn helpu i hybu gweithgarwch prosiectau Gwynedd.

Jane Davidson: The Pathways to Work programme, designed to help people claiming incapacity benefit into employment, will be introduced across north Wales from October 2007. In addition, the European structural fund convergence programmes 2007-13, under priority 2, namely, increasing employment and tackling inactivity, will help to provide increased project activity in Gwynedd.